

Ymgynghoriad ar Bwerau Disgresiwn i Awdurdodau Lleol Gyngdu'r Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi

Ffurflen Ymgynghori

Er mwyn ein helpu i gofnodi a dadansoddi ymatebion, atebwch y cwestiynau canlynol. Nid oes angen i chi wneud sylwadau ar bob cwestiwn, ac mae croeso i chi roi eich barn ar elfennau nad yw'r cwestiynau'n ymdrin â hwy.

<p>C1 <i>A ddylai Awdurdodau Lleol yng Nghymru gael disgresiwn i godi mwy na chyfradd lawn safonol y dreth gyngor ar ail gartrefi?</i></p>	<p>Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.</p> <p>Mae Dyfodol i'r Iaith yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.</p> <p>Mae Dyfodol yn cytuno y dylai Awdurdodau Lleol gael disgresiwn i godi mwy na chyfradd lawn safonol y dreth gyngor ar ail gartrefi. Mae bodolaeth ail gartrefi'n lleihau nifer y tai sydd ar gael i bobl leol, ac mae angen camau i wneud ail gartrefi'n llai fforddiadwy.</p> <p>Mae effaith ail gartrefi ar gymunedau hefyd yn bell gyrhaeddol gan ddylanwadu yn uniongyrchol ar yr economi lleol a'i droi yn aml yn economi tymhorol. Mae'r effaith hefyd yn amrywio o ardal i ardal ac os yw unrhyw newid polisi yn mynd i fod yn effeithiol rhaid rhoi'r gallu i awdurdodau lleol ymateb i ofynion lleol yn hyn o beth.</p>
<p>C2 <i>Beth ydych chi'n meddwl fyddai manteision neu anfanteision codi treth gyngor ychwanegol ar ail gartrefi i gymunedau lleol, neu i Gymru gyfan?</i></p>	<p>Byddai codi treth ychwanegol ar yr ail gartrefi presennol yn creu ffynhonnell ychwanegol o incwm i awdurdodau lleol i'w wario ar anghenion y gymuned leol.</p> <p>Byddai treth ychwanegol hefyd yn anghymhelliad (disincentive) i bobol brynu ail gartrefi mewn ardaloedd penodol o Gymru ac felly yn fodd o reoli'r farchnad.</p> <p>Ers degawdau mae'r farchnad ail gartrefi yng ngefn gwlad Cymru wedi cynyddu pris y farchnad ac o'r herwydd mae pobl leol yn ei chael yn anodd fforddio prynu tai yn eu</p>

	<p>cynefin. Canlyniad hyn yw diboblogi yng ngefn gwlad gyda phobl ifanc yn enwedig yn gadael i fyw mewn ardaloedd trefol cyfagos neu ymhellach i ffwrdd. Mewn ardaloedd lle mae'r iaith Gymraeg yn draddodiadol yn gryf mae hyn wedi golygu bod yr iaith yn edwino fel iaith gymunedol.</p> <p>Mewn sawl ardal o Gymru mae stoc tai gwag sylweddol. Byddai sicrhau bod y stoc tai hwn yn llai deniadol fel ail gartrefi yn golygu y gallai pobl leol eu prynu am bris fforddiadwy. Byddai hyn yn un cam tuag at sicrhau cymunedau lle mae'r Gymraeg yn hyfyw. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r angen i godi rhagor o dai mewn modd a all beryglu'r Gymraeg mewn cymunedau lle mae canran gymharol uchel yn ei siarad yn awr. Effaith arall codi llai o dai fyddai diogelu'r amgylchedd trwy gadw tir gwyrdd.</p>
<p>C3 <i>Beth yw'r gyfradd uchaf o dreth gyngor ychwanegol y dylid ei chodi ar ail gartrefi yn eich barn chi?</i></p>	<p>Fe fyddai Dyfodol yn ffafrio treth ychwanegol o hyd at 200% ar ail gartrefi.</p> <p>Mae'r rhan helaethaf o ail gartrefi Cymru mewn mannau gwyliau, lle mae incwm yn isel a chyfradd uchel o bobl oedrannus. Mae teuluoedd ifanc wedi eu cau allan o'r ardaloedd hyn yn benodol oherwydd y farchnad mewn ail gartrefi. Mae prisau tai wedi codi y tu hwnt i gyrraedd nifer sylweddol o deuluoedd lleol. Golyga hyn bod pwysau ariannol sylweddol ar gymunedau o'r fath yn enwedig felly pan mae gofyn i gymunedau ysgwyddo llawer o'r baich o gynnal gwasanaethau statudol ac anstatudol. Byddai treblu'r dreth gyngor ar ail gartrefi i yn rhoi incwm i'r awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r trigolion a'r rhai fydd yn defnyddio'r ail gartrefi.</p>
<p>C4 <i>Ydych chi'n meddwl y dylai cyfradd uchaf y dreth gyngor fod yr un fath ar gyfer ail gartrefi ac ar gyfer eiddo gwag hirdymor?</i></p>	<p>Mae Dyfodol yn cytuno y dylai'r gyfradd uchaf o dreth cyngor fod yr un fath ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.</p> <p>Wrth weithredu'r dreth uwch, mae angen sicrhau yr un pryd nad yw ail gartrefi a thai gwag yn gallu cael eu hystyried yn fusnes, ac yn gallu elwa o dreth gorfforaethol is. Mae hyn wedi bod yn wendid yn y gorffennol. Mae angen i'r dreth ychwanegol wneud mwy na gwneud iawn am unrhyw ennill i'r perchennog o dalu treth fusnes is.</p>

<p>C5 <i>Ydych chi'n meddwl y dylai'r dreth ychwanegol gael ei gosod ar yr un lefel ar draws holl ardal Awdurdod Lleol?</i></p>	<p>Credwn y dylid sicrhau bod y polisi yn un hawdd ei weithredu a'i ddeall. Awgrymwyd y gellid targedu'r dreth ychwanegol at ardaloedd penodol lle gellir dangos bod ail gartrefi yn cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol. Fodd bynnag, byddai angen i'r Awdurdodau Lleol amddiffyn unrhyw anghysonderau amlwg yn eu polisiau trethi. Byddai gwneud cyfradd uwch yn berthnasol i ail gartrefi ac eiddo gwag ar draws holl ardal Awdurdod Lleol yn system decach.</p>
<p>C6 <i>Ai dim ond i fathau penodol o ail gartrefi y dylai'r dreth ychwanegol fod yn berthnasol?</i></p>	<p>Dylai'r dreth ychwanegol fod yn berthnasol i bob ail gartref.</p>
<p>C7 <i>A ddylai mathau penodol o ail gartrefi gael eu heithrio o'r gyfradd ychwanegol?</i></p>	<p>Mae'n bosibl y gellid ystyried eithrio rhai tai mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft os yw teulu lleol wedi byw am gyfnod mewn un tŷ, dyweder 5 mlynedd, ond yn mynd i ffwrdd am gyfnod i weithio neu i astudio, mae angen camau sy'n sicrhau mai'r tŷ lleol yw'r cartref cyntaf. Enghraifft arall yw pan fo person oedrannus yn symud i lety gofal a'r teulu yn cadw'r cartref gyda'r bwriad o symud i'r ty yn y pendraw.</p>
<p>C8 <i>Sut y gellid defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol i gefnogi cymunedau lleol sydd â niferoedd uwch o ail gartrefi?</i></p>	<p>Dylai unrhyw gyllid ychwanegol aros yng ngoffrau yr awdurdod lleol. Byddai Dyfodol yn awyddus i weld yr awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio'r arian i cefnogi polisiau sy'n arwain at ddiwallu anghenion tai pobl leol, naill ai drwy gymorth prynu i unigolion, neu drwy brynu eiddo a'i addasu i fod yn dai fforddiadwy ar rhent. Drwy ddarparu mwy o dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol byddai hyn yn gymorth i ddatblygu economi'r gymuned leol ac yn gam at sicrhau cynaladwyedd y cymunedau hyn. Galli Llywodraeth Cymru gynhyrchu canllaw i annog awdurdodau i ddefnyddio'r arian at ddibenion diwallu anghenion tai lleol gan rannu enghreifftiau o arfer dda rhwng gwahanol awdurdodau lleol.</p>
<p>C9 <i>A oes gennych chi unrhyw bwyntiau eraill rydych yn dymuno eu codi nad ydynt wedi cael sylw'n barod yn y ddogfen ymgynghori hon?</i></p>	<p>Un elfen yn unig yw cynyddu'r dreth gyngor ar ail gartrefi. Yn Ffrainc yn ogystal â chodi trethi, mae'n nhw wedi cael gwared â threth enillion</p>

	<p>cyfalaf (Capital Gains) os ydi rhywun yn gwerthu ei ail dy ar y farchnad agored. Canlyniad hyn yw bod ail dai yn cael eu gwerthu ar bris gwerthu is gan nad ydi'r gwerthwr yn gorfod ystyried y dreth. Golyga hyn bod pris y tai yn nes at afael pobl leol.</p>
--	--